# Cyrhaeddiad yr Arolwg

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau demograffig i nodi rhanbarth, rôl a sector cyflogaeth. Drwy ofyn y rhain mae modd llunio adroddiadau rhanbarthol a dadansoddiadau manwl pellach.

## Gellir dadansoddi'r ymatebion hyn fesul rhanbarth. Roedd categori ar wahân i'r rhai sy'n cynnwys gwaith dros Gymru gyfan

**3%**
Cymru Gyfan

**16%**
Gogledd Cymru

**39%**
Canolbarth/Gorllewin Cymru

**42%**
De-ddwyrain Cymru




## Beth yw eich rôl? Pob ymatebydd (2045)

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu rôl

**4%**
Arweinydd hyfforddiant

**5%**
Strategol

## Y rhai sy'n cael eu cynrychioli fwyaf yw

**44%**
Gweithiwr rheng flaen

**25%**
Gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl

Dywedodd bron i hanner 49% eu bod yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd

**82%** ymateb yn uniongyrchol i bobl yr effeithir arnynt gan hunanladdiad neu hunan-niwed

Roedd yna ymatebwyr o fwy o'r sectorau cyflogaeth gwahanol a ganlyn:

- Cyfiawnder Troseddol
- Addysg
- Tân ac Achub
- Gwasanaeth Iechyd
- Awdurdod Lleol
- Llywodraeth Cymru
- Yr Heddlu
- Preifat/Masnachol
- Gofal Cymdeithasol
- Gwirfoddol/Elusen
- Lles/Budd-daliadau

GIG CYMRU NHS WALES | Y Weithrediaeth Executive

# Nifer sy'n cael Hyfforddiant Cyfredol

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr nodi a ydynt wedi cael hyfforddiant, a phryd, mewn hunanladdiad a/neu hunan-niwed.

Ar y cyfan, nododd bron i draean **31%** nad oeddent erioed wedi cael hyfforddiant

Cafodd **26%** eu hyfforddiant diwethaf 2 flynedd yn ôl neu cyn hynny

**A wnaeth yr hyfforddiant ddiwallu eich anghenion, neu ddarparu'r hyn roedd ei angen arnoch?** Pob ymatebydd (1022)

**63%** Do

**32%** Yn rhannol

**5%** Naddo

## Hyfforddiant mewnol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oeddent yn rhoi hyfforddiant fel rhan o'u rôl. Ymatebodd 10% yn gadarnhaol, sef cyfanswm o 209.

**A ydych wedi mynychu cwrs 'hyfforddi'r hyfforddwr'?**

**37%** Do

**63%** Naddo

**A fyddai gennych ddiddordeb mewn mynychu rhaglen 'hyfforddi'r hyfforddwr'?** (131)

**78%** Byddai

**22%** Na

GIG CYMRU NHS WALES | Y Weithrediaeth Executive

# Hyder a Galluogrwydd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor hyderus fyddent mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud â phobl yr effeithiwyd arnynt gan hunanladdiad a hunan-niwed ac a fyddent yn gallu ymateb yn briodol.

**Lefel hyder gyffredinol** Pob rôl (1686)

**21%** Ddim yn hyderus

**43%** Weithiau'n hyderus

**36%** Bob amser neu fel arfer yn hyderus

Gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol a nododd y lefelau uchaf o hyder ond nododd llai na hanner **47%** eu bod bob amser neu fel arfer yn hyderus.

Gweithwyr rheng flaen a nododd y lefelau isaf o hyder, gyda llai na thraean **30%** yn nodi eu bod bob amser neu fel arfer yn hyderus.

Po ddiweddaraf yr hyfforddiant, y mwyaf a nododd eu bod 'bob amser' neu 'fel arfer' yn hyderus (hyd at uchafswm o **49%** yn y chwe mis diwethaf).

Y rhai nad oeddent erioed wedi cael hyfforddiant oedd â'r ganran isaf ar gyfer yr atebion 'bob amser' neu 'fel arfer' yn hyderus **36%.**

# Meysydd Hyfforddiant â Blaenoriaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu gofynion sylfaenol mewn perthynas â llunio a darparu hyfforddiant.

Tiwtoriaid profiadol oedd yr opsiwn a ffafriwyd fwyaf, a ddewisiwyd gan **81%** o ymatebwyr.

Yr opsiwn a ddewiswyd lleiaf oedd gweithgareddau dilyn i fyny – gan **29%** o ymatebwyr

**Os byddai gweminarau neu weithdai ar gael, beth yr hoffech iddynt eu cwmpasu?**

**82%** Dulliau trugarog sy'n ystyriol o drawma

**76%** Sail dystiolaeth ac ymchwil

**69%** Dulliau arloesol

**62%** Siaradwyr gwadd